**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun Ddydd Mercher 1 Medi 2010 am 09.30am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, J B Bellis, B. Blakeley, J Chamberlain Jones, J A Davies, M Ll Davies,(sylwedydd); P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, R L Feeley, C Hughes, T R Hughes, E R Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, A G Pennington, B A Smith, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson Hill, C H Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Arweinydd Tîm (Cymorth) (G Butler) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB GAN**

Y Cynghorwyr P Duffy, I Gunning, J M Davies, D Hannam, N J Hughes, D Owens.

**257 MATERION BRYS**

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchwyd Paul Mead ar enedigaeth ei fab.

**DYMUNIADAU DA**

Anfonodd y Pwyllgor eu dymuniadau gorau at Judith Williams a'i theulu ar ôl damwain diweddar ei mab.

**CYDYMDEIMLAD**

Roedd yn drist gan y Pwyllgor glywed am farwolaeth mam y Cynghorydd Pauline Dobb, a chynigiwyd cydymdeimlad diffuant iddi.

**258 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhifo cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd yn gofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel sydd wedi'u cynnwys o fewn yr adroddiad sydd bellach yn cael ei gyflwyno, a bod caniatâd neu wrthodiadau cynllunio, yn cael eu cyhoeddi fel y bo'n briodol o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau a ganlyn yn amodol â'r amodau sy'n cael eu rhifo yn yr atodlen sydd bellach wedi'i chyflwyno:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Safle |
|---|---|
| 45/2010/0522/PF | Dosbarthwyd cynllun dangos datblygiad tebyg yn y cyffiniau<br>Codi estyniad i, a thrawsnewid garej, i lety byw a chodi estyniad to ar oleddf llawr cyntaf ar ei ben, ar ochr yr annedd |

| | |
|---|---|
| | **73 Maes y Gog, Y Rhyl**<br>**CANIATÁU** |
| 01/2010/0138/PF | Trawsnewid tŷ allan cyfredol i ffurfio 2 annedd, gosod 2 gwaith trin pecyn ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau<br>**Tai allan yn Lanmeirchion, Dinbych**<br>**CANIATÁU** |
| 23/2010/0577/PF | **SIARADWR AR GYFER GWYNDAF EVANS**<br>Dosbarthwyd cynllun lleoliad yn dangos y pellter i'r eiddo agosaf (Accar Las)<br>Codi tyrbin 10kw ar dwr 15m<br>**Rhiwlas Isa Prion Dinbych**<br>**CANIATÁU** |
| 28/2009/1286/PC | **SIARADWR AR GYFER COLIN PRITCHARD**<br>Cadw ffens bren i ffiniau blaen ac ochr annedd ar uchder sy'n amrywio o 0.8m i 1.75m<br>**46 Bryntirion Henllan Dinbych**<br>**CANIATÁU**<br>Yr Amod(au) yw:<br>1. Bydd y ffens a ganiateir drwy hyn yn cael ei staenio mewn lliw a fydd yn cael ei gytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn mis i ddyddiad y caniatâd hwn.<br>Y rheswm/rhesymau dros yr amod(au) yw:<br>1. Er budd mwynder gweledol.<br>Gwnaed y penderfyniad, er ei fod yn **ERBYN** Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm a ganlyn:<br>Nid yw'r ffens yn cael ei ystyried yn rhy ymwthiol ac y gallai'r effaith weledol gael ei lleddfu ymhellach trwy beintio'r ffens mewn lliw addas |

(ii) Eitemau Gorfodaeth

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Safle</u> |
|---|---|
| Enf/2010/00042 | Ffens bren i ffiniau blaen ac ochr annedd ar uchder sy'n amrywio o 0.8m i 1.75m<br>**46 Bryntirion Henllan Dinbych**<br>**CAFODD YR ADRODDIAD EI DYNNU YN ÔL OHERWYDD RHODDWYD CANIATÂD AR GYFER CADW'R FFENS** |
| Enf/2010/00059 | Defnydd anawdurdodedig ar dir ar gyfer storio carafán sefydlog a Land Rover segur<br>**Tir sy'n ffinio â Nant yr Hafod, Llandegla**<br>***PENDERFYNWYD**:*<br>*3.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio yn awdurdodi gwasanaeth Hysbysiad Gorfodi o dan Adran 172 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gyda chyfnod cydymffurfio o 3 mis, sy'n gofyn am symud y garafán sefydlog a Land Rover segur o'r tir*<br>*3.2 Dechrau ar weithredoedd erlyn yn erbyn unrhyw berson ble y mae Hysbysiad wedi'i gyflwyno, sy'n methu neu'n gwrthod cydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad.* |

**259 EITEMAU ER GWYBODAETH**

**259a. CYNLLUN DIRPRWYO WEDI'I DDIWEDDARU**

Dosbarthwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn rhoi manylion mân newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo fel y'i diwygiwyd yn yr adroddiad ynghlwm.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**259b. CYNLLUNIO AR GYFER ADEILADAU CYNALIADWY – POB CARTREF NEWYDD**

Dosbarthwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn Hysbysu Aelodau o'r gofynion am geisiadau am 1 neu'n fwy o dai i gydymffurfio â'r Polisi ar "Gynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy". Mae'r gofyniad hwn yn dechrau ar 1 Medi 2010.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

Daeth y cyfarfod i ben am 09:55am.

*********